The accounts were accepted and adopted.

JM proposed an increase to the yearly subscription in line with inflation of 2% to £470. This was agreed.

PL suggested WASACRE should be encouraged to use its funds to support LAs in supporting schools.

5. Election of Members to The Executive

EE advised that there had been a fair voting procedure in place – every SACRE had been invited to discuss the nominations and submit a return. 20 SACREs sent in a voting return. These had been collated and verified by an independent person.

Results:

Vice Chair – there were 3 nominations – most votes received for Tania ap Sion.

Executive Committee – the two successful nominations – Phil Lord and John Meredith.

EE passed the position of Chair to Rachel Samuel. RS thanked EE for all his support and guidance during her time as Vice Chair. RT added his thanks to EE and his best wishes for the future to RS. PW added her thanks and congratulations and acknowledged EE's empathy and wisdom. PW noted that RS has already shown her considerable work ethic, commitment and valuable support. LJ added her own reflections of the way in which EE has supported her in her various roles associated with WASACRE. LJ added her support for RS and what she will bring to the position of Chair. This was all further reiterated by JM and KE (who was deputising for Lyndon Lloyd). JT added he had probably known EE longer than anyone as EE was the rector in JT's own locality over 30 years ago. JT added his congratulations to RS.

6. AOB

None

7. Date of next meeting

Summer 2021 to be in Powys - date TBA.



**Cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru,
Rhithwir, drwy Microsoft Teams
Dydd Mawrth, 23 Mawrth, 2021
10.15a.m. – 1.00p.m.**

Yn bresennol

<p>Ynys Môn / Anglesey Rheinallt Thomas (RT) Gwyneth Mai Hughes (GH) Dylan Rees (DR)</p> <p>Blaenau Gwent Paula Webber (PW) Kathy Riddick (KW) Chris Abbas (CA) John Meredith (JM)</p> <p>Pen-y-bont ar Ogwr / Bridgend Edward J. Evans (EE) Angela Hill (AH) Alice Parry (AP)</p> <p>Caerffili/ Caerphilly Paula Webber (PW) Janet Jones (JJ) Cyng John Taylor (JT) Paul Warren (PWn) Cyng Michael Gray (MG) Rebecca Barrett (RB) Janet Jones (JJ) Martyn Western (MW) Carin Quinn (CQ) Teresa Parry (TP)</p> <p>Caerdydd / Cardiff Angela Hill (AH)</p> <p>Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire Kimberley Perry (KP) Cyng Gwyneth Thomas (GT)</p> <p>Ceredigion Cyng Keith Evans (KE)</p>	<p>Conwy Phil Lord (PL) Nicholas Richter (NR)</p> <p>Sir Ddinbych / Denbighshire Phil Lord (PL) Janet Axworthy (JA) Cyng Dave Mackie (DM)</p> <p>Sir y Fflint / Flintshire Vicky Barlow (VB)</p> <p>Gwynedd Dashu (D) Paul Rowlinson (PR) Eurfryn Davies (ED) Selwyn Griffiths (SG)</p> <p>Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil Angela Hill (AH)</p> <p>Sir Fynwy / Monmouthshire Paula Webber (PW) Louise Brown (LB) Sue Cave (SC) Suzanne Gooding (SG)</p> <p>Castell-nedd Port Talbot / Neath and Port Talbot Rachel Samuel (RS) Lee Workman (LW) Debbie Thomas (DT) Tim Hewitt (TH)</p> <p>Casnewydd / Newport Paula Webber (PW) Neeta Baicher (NB) Huw Stephens (HS)</p>	<p>Sir Benfro / Pembrokeshire Cyng Huw George (HG) Amanda Lawrence (AL)</p> <p>Powys Cyng. Ange Williams (AW)</p> <p>Rhondda Cynon Taf Angela Hill (AH) Martyn Silezin (MS) Matthew Maidment (MM)</p> <p>Abertawe / Swansea Alison Lewis (AL) Mohsen El-Beltagi (ME)</p> <p>Torfaen Paula Webber (PW) Marilyn Frazer (MF) Sian Lewis (SL)</p> <p>Bro Morgannwg / Vale of Glamorgan Angela Hill (AH) Marged Williams (MW) Edward Williams (EW) Kalpana Natarajan (KN)</p> <p>Wrecsam / Wrexham Libby Jones (LJ) Tania ap Siôn (TaS) Pippa Virdee-Lace BL)</p>	<p>Sylwedyddion: REMw Paul Morgan (PM)</p> <p>CBAC Andrew Pearce (AP)</p> <p>ESTYN Gwawr Meirion (GM)</p> <p>Llywodraeth Cymru Peter Kennedy (PK)</p> <p>REC Dave Francis (DF)</p> <p>Eglwys yng Nghymru Elizabeth Thomas (ET)</p> <p>Y Gwasanaeth Addysg Catholig Angela Keller (AK)</p> <p>Cymwysterau Cymru Philip Blaker (PB) Catrin Verrall (CV)</p> <p>Cofnodion Gill Vaisey (GV)</p> <p>Erail - heb wybod a pha CYSAG mae'n gysylltiedig Cyng J M Williams Primary Education</p>
---	--	---	--

1. Cofnodion a chroeso

Croesawodd RS bawb i'r cyfarfod ac esboniodd y protocol ar gyfer y cyfarfod rhithiol hwn.

Cafwyd croeso gan y Cynghorydd John Taylor, Cadeirydd CYSAG Caerffili, yr awdurdod oedd yn lletya'r cyfarfod. Mynegodd ei siom na allem fod yng Nghaerffili yn y cnawd ond er hynny, roedd yn bleser ganddo'n croesawu a dymunodd yn dda i'r cyfarfod. Rhoddodd gydnabyddiaeth i'r gwaith anhygoel y mae ysgolion ac athrawon wedi bod yn ei wneud mewn amgylchiadau mor anodd.

Diolchodd Cyng Taylor i Rebecca Barnet am fod yn glerc effeithiol ac effeithlon i GYSAG Caerffili, ochr yn ochr â Paula Webber, sy'n rhoi cefnogaeth broffesiynol. Mynegodd ei gefnogaeth i'r bwriad o gyfethol dau berson ifanc a fyddai'n ymuno â'r CYSAG cyn hir i roi llais disgyblion i'r pwyllgor.

Cafwyd croeso hefyd gan Paul Warren, Arweinydd Strategol Gwella Ysgolion. Eglurodd ei fod ef yn gyn bennaeth ac yn sylweddoli'n llwyr yr heriau enfawr sy'n wynebu athrawon ar hyn o bryd a dros y misoedd diwethaf. Cydnabuwyd fod athrawon wedi bod nid yn unig yn rheoli dysgu o bell yn ystod y pandemig ond ar yr un pryd yn rheoli'r newid cwricwlwm a'r cynllunio mae hynny'n ei olygu. Roedd yn sylweddoli hefyd yr effeithiau ar ddisgyblion sy'n cael graddfeydd amrywiol o gefnogaeth wrth ddysgu o gartref a'r effaith ar y gymuned ehangach hefyd.

Nododd y newidiadau sydd ar droed i AG sy'n mynd i fod yn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) ac yn orfodol i bob disgybl 3 - 16 oed. Heb hawl yn y dyfodol i rieni dynnu eu plant yn ôl, roedd yn sylweddoli ei bod yn hanfodol fod CGM yn wrthrychol, beirniadol a phlwrailaethol. Bydd hyn yn creu angen am Ddatblygu Proffesiynol Parhaus yn fwy nag erioed.

Soniodd Paul am yr angen i aelodau CYSAG feddu ar y sgiliau i lywio a ffurfio polisi ar lefel genedlaethol. Diolchodd i bawb am wneud eu gorau dros ddysgwyr ledled Cymru.

2. Myfyrdod tawel

Arweiniodd RS yr aelodau drwy fyfyrdod ar y flwyddyn a fu, gan sylweddoli mai'r diwrnod hwn, union flwyddyn yn ôl, oedd diwrnod cyntaf y cyfnod clo yn sgil Covid-19. Cydnabu bawb a oedd wedi colli eu bywydau - sut roedd y nifer wedi cynyddu yn y DU o 364 ym mis Mawrth 2020 i'r ffigwr swyddogol heddiw, sef 126,172. Myfyriodd ynghylch effaith y pandemig, yn gorfforol ac yn emosiynol, ar gynifer o bobl.

Soniodd RS am 'y golau ar ddiwedd y twnnel' gyda rhoi'r rhaglen frechu ar waith. Rhoddodd glod i'r holl weithwyr iechyd a'r gweithwyr allweddol am y cyfan a wnaethant ac y maent yn parhau i'w wneud yn eu gwaith hollbwysig.

Gwahoddodd RS yr aelodau i nodi munud o dawelwch am hanner dydd, yn unol â chynllun Marie Curie i wneud heddiw yn ddiwrnod cofio. Am 8 p.m., anogir pobl i ddal kannwyll ar garreg eu drws, tra bydd adeiladau ledled y wlad yn cael eu goleuo'n felyn.

3. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Lucy Grant a John Mitson sy'n Aelodau'r Pwyllgor Gwaith, Jennifer Harding - CYSAG Abertawe, Rita Fiona Thomas - CYSAG Castell-nedd Porth Talbot, Tudor Thomas - CYSAG Sir Fynwy.

4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2020

Cytunwyd fod y cofnodion yn adlewyrchiad gwir o'r cyfarfod yn amodol ar ychwanegu enw'r Cyng Keith Evans at y rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol.

Diolchodd RT am y manylder oedd yn y cofnodion ac am y ffaith iddynt fod yn barod mor gyflym ar ôl y cyfarfod.

5. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod diwethaf CCYSAGauC

Eitem 7 – Dysgu Cyfunol – adroddodd RS fod PYCAG wedi bod yn ystyried sut i symud ymlaen ar hyn. Rhoddir diweddariad yn nes ymlaen yn y cyfarfod.

Eitem 10 - cafwyd pryderon gan Ddyneiddwyr Cymru am aelodaeth ar GYSAGau. Mewn ymateb i hyn, roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at bob ALI yn eu hatgoffa am y llythyr gan LIC yn datgan y gellir rhoi lle i gynrychiolwyr o gredoau anghrefyddol megis dyneiddiaeth, ar Bwyllgor A.

6. Ymgynghoriad Cymwysterau Cymru (CC) (Alice Parry)

<https://qualificationswales.org/english/qualified-for-the-future---have-your-say/>

Rhodddodd AP drosolwg o'r ymgynghoriad cyfredol ar y cymwysterau TGAU newydd.

Adroddodd fod Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC wedi dechrau ystyried ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd aelodau'r Pwyllgor Gwaith sy'n athrawon wedi ystyried hyn i ddechrau, ac yna cafwyd cyfarfod gyda'r Cyngor Addysg Grefyddol i rannu barn.

Nododd AP fod yr ymgynghoriad yn cynnwys tri phrif gynnig ar gyfer Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau:

1. Adolygu a diwygio TGAU mewn Busnes, Daearyddiaeth, Hanes ac Astudiaethau Crefyddol.

Nododd AP y byddai angen sicrhau y gellir cymharu pob un o'r TGAU. Dylid rhoi'r un dyraniad amser i'r pynciau TGAU i gyd. Byddai CCYSAGauC yn dymuno fod TGAU Astudiaethau Crefyddol yn cael ei gyhoeddi yr un pryd â'r pynciau eraill. Mae angen ystyried CGM statudol ac Astudiaethau Crefyddol opsiynol. Mae angen i'r fanyleb fynd i'r afael â chynhwysiant - dylai fod yn drylwyr ac yn heriol ond hefyd rhaid iddi fod yn hygyrch i bob dysgwr. Yn hytrach na bod y cwrs Llawn neu Fyr yn 100% arholiad, byddai asesu parhaus gyda dull dysgu digidol a chyfunol yn well. Yn ogystal, mae angen i'r TGAU fod yn ddigon heriol fel bod myfyrwyr yn barod i fynd ymlaen at astudio pellach megis Safon Uwch.

2. Os yw'n ymarferol, creu TGAU newydd mewn Astudiaethau Cymdeithasol.

Mae AP yn sylweddoli y gallai hwn fod yn gwrs poblogaidd. Fodd bynnag, bydd angen iddo fod yn eglur ac yn wahanol i bynciau eraill. Er y deellir y gall fod cysylltiadau posibl rhwng disgyblaethau, mae angen i'r cysylltiadau hyn fod yn gyflenwol ac nid yn gystadleuol. Mae angen i bob pwnc fod ar wahân. Ni ddylid caniatáu cuddio Astudiaethau Crefyddol o fewn Astudiaethau Cymdeithasol.

Mae angen i Gymwysterau Cymru ymgynghori â'r Rhanddeiliaid a sicrhau fod arbenigwyr yn cael eu defnyddio i greu'r cymwysterau newydd.

3. Os yw'n ymarferol, creu TGAU integredig newydd mewn Dyniaethau.

Ar gyfer y dull hwn, awgrymodd AP y byddai angen sicrhau fod y cysylltiadau yn gyflenwol a bod y pynciau gwahanol sy'n rhan o'r Dyniaethau yn dal i allu cael eu gweld ar wahân. Mae cyfle yma i wreiddio Datganiadau Yr Hyn sy'n Bwysig mewn TGAU. Byddai dull amlochrog trwy amryw o safbwyntiau yn fuddiol cyn belled â bod y gwahaniaethau rhwng y pynciau eu hunain yn dal yn amlwg.

Nodwyd nad yw rhai ysgolion yn bosibl yn addysgu mewn modd thematig felly ni fydden nhw eisiau arholiad Dyniaethau. Gellid ymdrin â'r CGM statudol mewn cymhwyster Dyniaethau integredig.

Bydd ymatebion pellach gan y Pwyllgor Gwaith ac aelodaeth CCYSAGauC yn ehangach yn cael eu hystyried wrth ffurfio ymateb terfynol CCYSAGauC i'r ymgynghoriad a fydd yn cael ei anfon i Gymwysterau Cymru erbyn 9 Ebrill 2021, cyn dyddiad cau 16 Ebrill. Bydd crynodeb o'r ymateb yn cael ei rannu gyda phob CYSAG pan mae ar gael.

Codwyd cwestiynau a chawsant eu hateb gan wahanol aelodau.

Dywedodd LB fod ei ChYsAG hi wedi edrych ar yr ymgynghoriad. Roedd PW, ymgynghorydd y CYSAG, wedi darparu ymateb drafft i'w ystyried. Roedd athrawon, yn arbennig, yn pryderu am TGAU Dyniaethau gan ddweud pe na bai disgyblion yn cael y cyfle i arbenigo mewn pynciau penodol, byddai hyn yn eu hatal rhag gwneud Safon Uwch neu gymhwyster pellach yn y pwnc e.e. Astudiaethau Crefyddol. Awgrymodd LB fod athrawon yn dymuno cadw arholiadau pynciau ar wahân.

Holodd PL a fyddai Datganiadau Yr Hyn sy'n Bwysig yn cael eu hadlewyrchu yn y TGAU newydd. Cadarnhaodd PW y byddent.

Awgrymodd PL hefyd y byddai'r ddarpariaeth arholiad gynyddol yn y Dyniaethau yn ymdrin â chryn dipyn o gynnwys ac mae angen bod yn ofalus i beidio ag ailadrodd ar draws yr arholiadau.

Cadarnhaodd PW fod dal angen i lawer mwy o gynllunio ddigwydd ar gyfer y cymwysterau newydd. Esboniodd mai'r rheswm y mae CC yn dilyn y llwybr hwn yw i gynnwys y sybsidiaredd a fydd gan ysgolion. Bydd angen darparu ystod o opsiynau arholiad i fod yn addas i'r dewisiadau / dulliau gwahanol o ddylunio a darparu'r cwricwlwm y bydd ysgolion yn eu mabwysiadu.

Dywedodd DF ei fod yn gwerthfawrogi'r cyfarfod diweddar gyda CCYSAGauC yr oedd ef a Deborah Weston wedi eu gwahodd i fynychu ar ran y Cyngor Addysg Grefyddol i drafod y cymwysterau newydd. Yn sgil hynny mae'r Cyngor yn ysgrifennu at yr holl sefydliadau sy'n

aelodau i'w gwneud yn ymwybodol o'r ymgynghoriad a'u hannog i ymateb yn eu ffordd eu hunain os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Atgoffodd EE yr aelodau fod CCYSAGauC wedi cyfarfod CC dros nifer o flynyddoedd. Yn y gorffennol mae CCYSAGauC wedi awgrymu dau fath o TGAU – TGAU Dyniaethau a hefyd ail TGAU Dyniaethau sydd â phwnc arbennig megis Astudiaethau Crefyddol. Cynigiodd y dylid atgoffa CC o'r awgrym hwn.

Holodd HS am yr amserlen o ran CYSAG yn sefydlu Maes Llafur Cytunedig newydd a pha gymwysterau newydd fyddai ar gael.

Eglurwyd y bydd yn rhaid datblygu Meysydd Llafur Cytunedig cyn ein bod yn gwybod i sicrwydd sut bydd y cymwysterau newydd yn edrych – er bydd yna rywfaint o ymwybyddiaeth gan y byddant yn seiliedig ar y cwricwlwm newydd.

Dylai Cynadleddau y Maes Llafur Cytunedig gael eu cynnal yn 2022. Cyhoeddir y cymwysterau newydd yn 2024 i'w haddysgu gyntaf ym mis Medi 2025 a'r arholiadau cyntaf yn 2027.

Dywedodd MW ei fod yn croesawu llwybrau ehangach o feddwl ac athroniaeth ond yn gobeithio nad yw AC yn cael ei lastwreiddio ormod.

Yn ôl KR, mae'r mater o Gynadleddau y Maes Llafur Cytunedig yn bwynt pwysig. Os yw ysgolion yn cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn 2022, dylai pob CYSAG drefnu Cynhadledd cyn Medi 2022 fel bod ysgolion yn ymwybodol o ofynion CGM lleol ac y gallant gynnwys CGM wrth gynllunio'r cwricwlwm.

7. Diweddariad a lansio gwefan CCYSAGauC (Tania Ap Siôn)

Rhoddodd TapS ddiweddariad ar gynnydd gyda'r wefan newydd. Dangoswyd 'tudalen gartref' y safle drwy rannu sgrin. Mae rhan Saesneg y wefan wedi'i chwblhau erbyn hyn. Mae'r ochr Gymraeg wrthi'n cael ei datblygu. Mae'r ddewislen yn cadw'r un strwythur â'r wefan bresennol. Mae'r safle newydd yn fwy ffres a chyfoes ac yn hawdd ei lywio dros 5 neu 6 o feysydd.

Mae botymau Twitter a Facebook yn caniatáu integreiddio â'r Cyfryngau Cymdeithasol sy'n rhan bwysig o barhau i godi proffil a hygyrchedd CCYSAGauC.

Bydd y safle'n mynd yn fyw pan mae'r rhannau yn y ddwy iaith wedi'u cwblhau. Nodwyd fod angen ystyried gallu mynd ato drwy chwiliad Google yn Gymraeg.

Diolchodd TapS i bawb a oedd wedi bod â rhan mewn datblygu'r safle ac yn arbennig i waith ardderchog Nick Evans sydd wedi ymgymryd â'r prosiect hwn i CCYSAGauC.

8. Materion llywodraeth Cymru:

Cyfarfodydd (Rachel Samuel)

Cyfeiriodd RS at adroddiad cryno y cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru a oedd wedi'i gynnwys yn y papurau ar gyfer y cyfarfod heddiw.

Cynhaliwyd dau gyfarfod ers cyfarfod diwethaf CCYSAGauC – 22.10.20 a 17.12.20. Codwyd nifer o gwestiynau ac ymatebwyd iddynt:

- Diweddariad ar Fframwaith AG – mae'r cwestiwn hwn yn dal i fynd rhagddo a'r ateb yw y bydd canllawiau ar gael cyn gynted â phosibl – bydd Libby Jones yn rhannu diweddariad pellach yn ystod cyfarfod CCYSAGauC.
- Effaith Covid 19 – fe'i gwnaed yn glir fod pob deddfwriaeth yn parhau yn ôl y bwriad ac na fyddai oedi i'r Bil Cwricwlwm.
- Ymgynghoriad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – cadarnhawyd y camau nesaf ar waith y pwyllgor a gellir gweld y canlyniadau o fewn y gwelliannau i'r bil cwricwlwm ac asesu fel y rhannwyd gan Paula Webber heddiw.
- Cynnwys datblygiad Ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol, corfforol a chymdeithasol disgyblion yn y canllaw – gwnaed cais i gyfeirio at hwn o fewn y dogfennau i sicrhau meddwl cydgysylltiedig, hyd yn oed pan nad yw'n cael ei grybwyll. Nid yw'r term mwyach yn yr eirfa. Cytunwyd bod angen ystyried hyn ymhellach, ond nid oedd yn glir pwy fyddai'n gwneud hyn.
- Diolchodd LIC i CCYSAGauC am y papurau briffio a baratowyd. Cynigiodd Edward Evans, ar ran CCYSAGauC, edrych ar sefyllfa addoli ar y cyd yn 10/94 nad yw'n cael ei ystyried yn y bil newydd ac felly fydd yn dal yn ofyniad cyfreithiol. Diolchwyd am gwblhau'r papur hwn.
- Papur briffio dyddiedig Chwefror 2020 - mewn ymateb i hwn, cadarnhaodd LIC fod cyllid wedi mynd i'r consortia ar gyfer Datblygu Proffesiynol. O ganlyniad, yr ALLau unigol fyddai'n penderfynu a oedd angen iddynt gyflogi ymgynghorwyr. Awgrymodd LIC ein bod yn siarad yn uniongyrchol â CCAC am y sefyllfa hon.
- Trafodaeth ar y llythyr gan y Gweinidog dyddiedig 16 Tachwedd 2020 yn arbennig 'bydd canllaw pellach i gefnogi Awdurdodau Lleol, CYSAGau a Chynadleddau Maes Llafur Cytunedig yn cael ei ddatblygu dros y misoedd sy'n dod. Fe holon ni hefyd beth sy'n gwneud grŵp gydag argyhoeddiad anghrefyddol penodol yn grŵp 'swyddogol' sydd angen cynrychiolaeth ar GYSAG. Fe'n hysbyswyd y gallai hyn gael ei esbonio yn y fframwaith, o bosibl gweithgor cyd-awduro er mwyn rhoi'r canllawiau angenrheidiol i ALLau fel y gall pob un wneud eu penderfyniadau eu hunain.
- Diweddariadau ar gymwysterau yn awr ac yn y dyfodol - mae hwn eto yn gwestiwn parhaus gyda'r holl ymgynghoriadau sy'n cael eu cynnal yn gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd a newidiadau i arholiadau TGAU a lefel A eleni.
- Mynediad i HWB i CCYSAGuC – Cytunwyd y byddai LIC yn ymchwilio i hyn ac yn trefnu i aelod o dîm HWB siarad â ni.

Fframwaith AG (Libby Jones)

Esboniodd LJ fod toriad hir wedi bod mewn gwaith ar y Fframwaith CGM oherwydd sefyllfa Covid-19. Yn y diwedd craffwyd ar y canllawiau drafft ym mis Ionawr 2021 ac fe'i gwelwyd gan y Bwrdd Rhaglen. Roedd rhai gwelliannau wedi cael eu hawgrymu ac roedd grŵp o arbenigwyr yn cynnwys LJ ei hun, wedi gweithio ar hwn ers Chwefror 2021. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar y Fframwaith yn dechrau yng nghanol Mai ac yn para am 8 wythnos. Bydd yr ymatebion yn cael eu dadansoddi hyd at fis Medi / Hydref 2021. Bydd y Fframwaith terfynol ar gael ym mis Rhagfyr 2021. Felly, bydd angen i GYSAGau gynnal

Cynadleddau y Maes Llafur Cytunedig o fis Rhagfyr 2021. Adroddodd LJ fod Cynhadledd y Maes Llafur Cytunedig Wrecsam yn cyfarfod ym mis Ionawr 2022.

Mewn ymateb i gwestiwn gan PW, esboniodd PK fod y Bwrdd Rhaglen yn grŵp arweiniad mewnol ehangach. Dywedodd PW ei bod yn teimlo'i bod yn bwysig fod y Fframwaith newydd yn mynd at y Bwrdd Cydlyniant i sicrhau ei fod yn unol â'r cyfan o'r cwricwlwm newydd. Pwysleisiodd ei bod yn bwysig gwneud yn siŵr fod yn Fframwaith yn cyd-fynd â Datganiadau Yr Hyn sy'n Bwysig.

Ychwanegodd LJ fod LIC, ar 18 Mawrth, wedi anfon copi o'r Fframwaith Drafft i bob un o'r 22 Cyfarwyddwr Addysg. Mae LIC yn gwahodd ymatebion i'r drafft gan yr ALI erbyn 9 Ebrill 2021. Nododd yr aelodau fod hon yn amserlen afrealistig o ystyried y bydd y staff allweddol ar eu gwyliau yn y cyfnod hwn gan ei bod yn Basg.

Mynnodd KP fod LIC yn hyderus eu bod wedi rhoi cymaint o amser ag y gallant ei ganiatáu i'r adborth cychwynnol hwn o ystyried yr amserlen y maen nhw'n gweithio iddi. Atgoffodd yr aelodau y bydd yr ymgynghoriad llawn ar agor tan ganol Mai.

Awgrymodd LB ei bod yn ymddangos nad yw rhai Cyfarwyddwyr Addysg wedi anfon y Fframwaith i Glercod CYSAGau i'w anfon ymlaen i aelodau'r CYSAG. O ystyried nad oedd CCYSAGauC wedi derbyn copi o'r Fframwaith yn swyddogol, esboniodd LJ nad oedd CCYSAGauC mewn sefyllfa i'w anfon i Glercod CYSAG. Awgrymodd LJ y gallai'r aelodau oedd yn bresennol ofyn i'w Clerc CYSAG ofyn i'w Hadran Addysg am gopi y gellir ei ddsbarth i'r aelodau CYSAG.

Pryder KR oedd nad yw'r Fframwaith yn esbonio'r ddeddfwriaeth newydd yn ddigonol. Mae hi'n teimlo fod angen i unrhyw un sy'n defnyddio'r Fframwaith ac yn dehongli ei derminoleg, gael eu gwarchod rhag unrhyw her gyfreithiol. Awgrymodd y dylai fod diffiniadau cyfreithiol o dermau megis 'beirniadol, gwrthrychol a phlwrailaethol er enghraifft. Holodd KR hefyd pam fod y term 'argyhoeddiadau athronyddol' yn cael ei ddefnyddio yn y Fframwaith yn hytrach na 'bydolygon' fel yn y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig.

Roedd PW yn cytuno a mynegodd bryder tebyg i un KR. Dywedodd LJ fod rhesymau cyfreithiol pam fod y term 'argyhoeddiadau athronyddol' yn gorfod cael ei ddefnyddio yn y Fframwaith ond roedd hi'n cydnabod y byddai athrawon, yn arbennig, angen cymorth i ddeall y derminoleg.

Nododd DF y bydd yn rhaid i'r REC aros nes bod y ddogfen ymgynghori ar gael cyn y gall ef ei gweld.

Dywedodd CA ei bod hi'n gallu cysylltu'n hawdd â Chlerc y CYSAG ond nad oedd CYSAG Blaenau Gwent wedi cynnal unrhyw gyfarfodydd yn y flwyddyn ddiwethaf.

Dysgu Proffesiynol (Libby Jones)

Roedd PW ac LJ wedi cyfarfod â KP eto ac wedi cyflwyno canfyddiadau arolwg athrawon CCYSAGauC. Gyda bron i 400 o ymatebion, derbyniwyd hyn fel tystiolaeth ddefnyddiol iawn a dywedodd KP fod y ffigyrau'n profi fod yna angen am Ddysgu Proffesiynol i athrawon.

Mynegodd LJ ei diolchgarwch i bob CYSAG am anfon yr arolwg i'w hysgolion. Roedd yr ymatebion yn dystiolaeth fod angen dysgu proffesiynol i gefnogi addysgu CGM.

Fel y gofynnwyd gan KP, mae CCYSAGauC wedi darparu model i ddarlunio dull cydweithredol o Ddysgu Proffesiynol i CGM. Anfonwyd hwn i KP a bwriedir cael cyfarfod arall i drafod y model.

Rhannwyd cyflwyniad PowerPoint i amlinellu cynnwys y model.

Cafodd ystod eang o bartneriaid cydweithredol posibl eu cynnwys megis CCYSAGauC, Estyn, PYCAG, Esgobaethau, ysgolion ayb.

Awgrymodd KR y dylai ystod o grwpiau cred – crefyddol ac anghrefyddol – gael eu cynnwys hefyd felartneriaid posibl i gefnogi Dysgu Proffesiynol. Esboniodd LJ y rhesymeg dros gynnwys esgobaethau – byddant yn darparu Dysgu Proffesiynol i'w hysgolion eglwys – ond roedd LJ yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr y gallai grwpiau crefyddol ac anghrefyddol eraill ei wneud i Ddysgu Proffesiynol.

Nododd LJ arwyddocâd y newid enw a fydd yn cael effaith ar y pwnc ac ar ddealltwriaeth athrawon o natur y pwnc. Awgrymodd y bydd y Fframwaith yn cynnig rhywfaint o arweiniad i CGM ac y bydd hwn yn adnodd defnyddiol ond ni fydd yn ddigonol ohono'i hun i gefnogi athrawon.

Dywedodd TapS y bydd Dysgu Proffesiynol yn allweddol i sicrhau llwyddiant gweithredu'r cwricwlwm newydd.

9. Cyflwyniad PYCAG – Bil y Cwricwlwm (Paula Webber)

Rhannodd PW gyflwyniad PowerPoint i amlinellu'r sefyllfa gyfredol gyda Bil y Cwricwlwm.

Nodwyd y canlynol:

- Cymeradwywyd y Bil gan y Senedd ar 02.03.21 gyda 32 pleidlais o blaid, 18 pleidlais yn erbyn, ac yn yn atal ei bleidlais.
- Cytunwyd ar y gwelliannau disgwylidig i CGM.
- Ni dderbyniwyd gwelliannau ychwanegol a gynigiwyd, ynglŷn â'r hawl i dynnu'n ôl o CGM a'r cyfrifoldeb am gostau a wynebir drwy ddarparu dau faes llafur CGM mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sydd o gymeriad crefyddol.
- Bydd angen i'r bil gael Cydsyniad Brenhinol ar 6 Ebrill

Amlinellodd PW y prif newidiadau mewn deddfwriaeth a fydd yn effeithio ar CGM.

Tynnodd PW sylw at y newid enw i GYSAGau a fydd yn cael eu hadnabod fel Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog.

Bydd y ddeddfwriaeth bellach yn adlewyrchu'r gyfarwyddeb flaenorol gan LIC fod cyrff sy'n cynrychioli argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol i'w cynnwys yn aelodaeth Pwyllgor A, h.y.

(i) crefyddau Cristnogol a chrefyddau ac enwadau eraill o grefyddau o'r fath, ac

(ii) argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol.

Yna canolbwyntiodd PW ar y camau nesaf i GYSAGau. Awgrymodd PW fod angen i GYSAGau ymateb i ymgynghoriad y Fframwaith CGM. Bydd angen iddynt drefnu a chynnal Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig. Awgrymodd PW sut byddant yn delio â'r newid enw. Mae'n bosibl y bydd angen diweddarau Cylchoedd Gorchwyl a Chyfansoddiadau CYSAG i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol. Bydd angen i GYSAGau baratoi i gynghori ysgolion wrth iddynt ddatblygu eu Cwricwlwm Dyniaethau. Dylid croesawu datganiadau Yr Hyn sy'n Bwysig a chynghori ysgolion ar sut y gellir eu defnyddio i ddarparu'r CGM gorau o fewn y Dyniaethau. Gallai CYSAGau ac ysgolion archwilio hefyd y cysylltiadau a'r rhyng-ddibyniaethau rhwng CGM (o fewn y Dyniaethau) a'r Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill.

Awgrymodd PW fod angen ystyried sut gall CYSAGau a CCYSAGauC weithio mewn partneriaeth gyda'r ALlau, consortia, mudiadau eraill ac ysgolion i ddarparu Dysgu Proffesiynol a phrofiadau dysgu cyfoethog a dilys o amgylch y cysyniadau allweddol o fewn CGM/Dyniaethau.

Gallai CYSAGau fyfyrion a gwerthuso sut gallant ddod yn fwy effeithlon ac effeithiol. Dylai fod sgwrs barhaus gydag athrawon a dysgwyr, i adeiladu perthnasau, yn ei lle.

Holodd PL a oes angen yswiriant indemniad ar GYSAGau gan eu bod yn rhoi cyngor. Bydd angen iddynt sicrhau fod y cyngor o'r safon uchaf.

Eglurodd EE o ran CYSAGau, dim ond un grŵp A sydd, a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr crefyddol ac anghrefyddol.

Gan y bydd enw newydd i GYSAGau, awgrymodd RT y gall fod angen enw newydd a logo newydd ar CCYSAGauC.

Nododd LB fod heriau cyfreithiol yn bosibl ar bob adegau gyda heriau posibl o ran y ddeddfwriaeth ei hun, gan nad yw'n caniatáu optio allan i rieni. Yn neddfwriaeth y ddeddf cydraddoldeb, roeddent yn darparu eithriad i wahaniaethu mewn perthynas â chyd-destun addysg grefyddol ac mae angen cadw hynny mewn cof.

Rhannodd GT bryder y gall fod mwy o bwyslais ar athroniaeth a hynny yn lle AG. Dywedodd PW fod datganiadau'r Hyn sy'n Bwysig yn cynnig cyfle mwy cyfoethog am astudiaethau crefyddol mwy pwrpasol a bod angen i ni sicrhau fod athrawon yn cael yr hyfforddiant a'r gefnogaeth i adnabod a gwneud defnydd o'r cyfleoedd hyn.

Cadarnhaodd PK y bydd CGM yn dal i fod yn statudol. Nid yw yn mynd i gael ei lastwreiddio. Nid yw'r newid enw yn tynnu oddi ar AG dda – y bwriad yw ail-bwysleisio'r hyn sy'n golygu AG dda yn barod.

10. Diweddariadau:

Y Cyngor Addysg Grefyddol (Dave Francis)

Dywedodd DF fod y Cyngor wedi bod yn falch cael cydweithio â CCYSAGauC ar y materion ynghylch adolygu cymwysterau.

Cyfeiriodd at y prosiect a sefydlwyd i archwilio'r ddealltwriaeth o'r term 'bydolygon'. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cynnig cyfres o sgwrsiau i rannu'r canfyddiadau hyd yma. Bydd y Pwyllgor

Addysg yn parhau i edrych ar y model bydolygon yn hytrach na model crefydd. Gall canlyniad terfynol y prosiect gael ei gofnodi naill ai mewn cyhoeddiad neu ffilm wedi'i hanimeiddio.

Tynnodd DF sylw at brosiectau eraill megis prosiect y Llysgenhadon Ifanc a oedd bellach wedi'i gcontractio i AREIAC. Soniodd am y Marc Ansawdd Addysg Grefyddol ac atgoffodd CCYSAGauC fod hwn ar agor i ysgolion yng Nghymru yn ogystal â Lloegr.

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Cyngor Addysg Grefyddol ar 11 Mai 2021.

Bydd 3 sedd i'w hethol ar y bwrdd.

Nododd DF hefyd ei bod yn amser adnewyddu tanysgrifiadau aelodaeth REC.

AREIAC (Gill Vaisey)

Adroddodd GV fod trafodaethau'n mynd rhagddynt ar gynhadledd yr haf a bydd y newyddion yn cael ei ledaenu yn fuan.

Erbyn hyn mae pump o bobl yn grŵp rhanbarthol AREIAC Cymru. Pwysleisiodd GV werth AREIAC fel corff proffesiynol ac anogodd aelodaeth, sy'n £70 y flwyddyn. Ceir manylion pellach ar [wefan AREIAC](#).

Roedd GV wedi anfon Newyddlen AREIAC ymlaen i aelodau Cymru er y byddent wedi'i derbyn yn uniongyrchol hefyd. Mae'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol a chyfleoedd i fynychu gweminarau amrywiol ar-lein – a'r clwb llyfrau.

Roedd manylion Rhaglen Arweinyddiaeth St Gabriel wedi cael ei rannu ag aelodau Cymru. Nodwyd fod y rhaglen hon ar agor i bob ymarferwr yng Nghymru yn ogystal â Lloegr ac y byddai croeso i geisiadau o Gymru. Y prif feini prawf yw bod athro sy'n dymuno gwneud cais yn cefnogi AG y tu hwnt i'w ysgol ei hun (e.e. rhoi cefnogaeth i athrawon mewn ysgolion eraill - yn rhedeg grŵp Rhwydweithio efallai). Ceir manylion yn <https://www.natre.org.uk/news/latest-news/the-culham-st-gabriel-s-leadership-programme/> neu <https://www.reonline.org.uk/leading-re/leadership/leadership-programme/> er bod y dyddiad cau ar 31 Mawrth.

EFTRE (Gill Vaisey)

Mae EFTRE wedi parhau i gynnal ei gyfarfodydd bwrdd ar-lein. Bwriedir cynnal y gynhadledd ddwy flynyddol yn Rhufain ar 25-28 Awst 2022. Y thema fydd 'Crefydd Fyw' sy'n cyd-fynd â'r pwyslais mewn AG yng Nghymru a Lloegr.

MAGC (Paul Morgan)

Adroddodd PM fod MAGC wedi parhau i ganolbwyntio ar ddyfodol y cyhoeddiad *RE Ideas*. Roedd wedi cael cyngor gan PYCAG. Bydd *RE Ideas* yn cael ei ohirio am y dyfodol agos o leiaf. Cydnabuwyd y bydd angen asesu pa newidiadau fydd angen eu gwneud os yw'r cyhoeddiad am barhau.

Rhwydwaith Rhyng-ffydd (Libby Jones)

Adroddodd LJ fod y Rhwydwaith Rhyng-ffydd yn datblygu rhai adnoddau ar gyfer CA3. Roedd Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC wedi cael gwahoddiad i ystyried yr adnodd a chynnig

adborth – er enghraifft a oes angen ei addasu i Gymru. Anfonwyd sylwadau i'r cyhoeddwr ac maent yn ystyried a fydd ar gael i ysgolion yng Nghymru.

Nododd LJ fod aelodaeth newydd y Rhwydwaith yn cynnwys Caplaniaeth Prifysgol y Drindod Dewi Sant.

Adroddodd LJ fod y mewnbwn gan CCYSAGauC bob amser yn cael ei groesawu a'i werthfawrogi.

Diweddariad PYCAG (Libby Jones)

Adroddodd LJ fod aelodau PYCAG wedi trafod ymgynghoriad Cymwysterau Cymru yn eu cyfarfod diwethaf. Maent wedi llunio ymateb sy'n debyg i ymateb CCYSGauC. Ond, mae'n tynnu sylw at yr ymatebion amrywiol gan aelodau unigol. Cydnaybdir nad yw'r aelodau bob amser yn cytuno ar bob pwynt ond maent yn cael dadl a thrafodaeth werthfawr am y pwyntiau a godwyd. Cyfeiriodd LJ at y cytundeb y gallai PYCAG gyflwyno cais i CCYSAGauC am gyllid i greu adnoddau dysgu cyfunol. Fodd bynnag, cytunwyd fod diffyg capasiti ymhlith aelodau PYCAG i wneud gwaith ar adnoddau dysgu cyfunol. Cytunodd PYCAG y byddai'n fwy defnyddiol dwyn ynghyd rhestr o ddolenni defnyddiol ac addas i'r adnoddau sy'n bodoli'n barod.

Nodwyd bod y gwahanol gonsortia yn coladu rhestrau o adnoddau. Bydd LJ yn hwyluso crynhoi'r rhestr hon ac yn cysylltu â Phwyllgor Gwaith CCYSAGau / RS fel Cadeirydd.

Nododd LJ yr ystod o eitemau a drafodwyd yng nghyfarfod PYCAG a oedd yn cynnwys ail-ystyried ei gyfansoddiad a'i aelodaeth.

Gofynnodd KN sut mae disgyblion o gefndir lleiafrifol yn cael eu cynnwys o ran addysg grefyddol mewn ysgolion. Nododd LJ fod sybysidiaredd yn y cwricwlwm newydd yn golygu y gall ysgolion sicrhau fod cynllunio'u cwricwlwm yn adlewyrchu eu hardal a'u dysgwyr eu hunain. Awgrymodd PW fod natur gynhwysol gyffrous y cwricwlwm newydd a'i bwyslais ar amrywiaeth yn rhywbeth i'w ddathlu. Awgrymodd KR, yn unol â hyn, fod angen i GYSAGau gymryd y cyfle hwn i gynnwys cynrychiolwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd.

Adroddiad o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 26 Ionawr (Rachel Samuel / Tania Ap Sion)

I ddechrau diolchodd RS i bawb ar y Pwyllgor Gwaith am eu holl waith a oedd yn fwy anodd oherwydd Covid-19 a'r holl newidiadau gyda'r cwricwlwm.

Amlinellodd RS yr eitemau fel yn ôl yr adroddiad a gyflwynwyd gydag agenda heddiw. Nodwyd fod y rhan fwyaf o'r pwyntiau hyn wedi cael eu trafod yn barod fel rhan o'r agenda.

Nododd yn arbennig, lwyddiant CCYSAGauC mewn sicrhau fod ffi talu'n hwyr CBAC wedi cael ei hepgor ac nad yw'n weithredol mwyach.

Nododd RS fod y Pwyllgor Gwaith wedi cael llythyr gan Gyngor Eglwysi Rhyddion Cymru yn gofyn am gymorth CCYSAGau i gyfieithu adnoddau i athrawon a baratowyd gyda *RE Today* ar themâu gwrth-hiliol a BAME. Bydd hwn yn cael ei gynnwys ar yr agenda i'w drafod yn y pwyllgor gwaith nesaf. Yn dilyn hyn, rhoddir ymateb i'r Cyngor Eglwysi Rhyddion a bydd adborth yn cael ei rannu yng nghyfarfod nesaf CCYSAGauC.

11. Gohebiaeth (Alice Parry)

Croesawodd AP Gwawr Meirion, cynrychiolydd Estyn, i'w chyfarfod CCYSAGauC cyntaf ac fe'i gwahoddwyd i siarad. Adroddodd GM fod Estyn yn ymgysylltu ag ysgolion ynghylch y cwricwlwm newydd. Mae Estyn yn edrych hefyd ar sut mae ysgolion wedi addasu gwaith i ymdopi â'r pandemig. Hysbysodd GM yr aelodau y gellir cyrchu adroddiadau thematig ac adroddiadau o ymgysylltiad diweddar Estyn ag ysgolion o wefan Estyn.

Roedd gohebiaeth wedi'i derbyn fel a ganlyn.

Dyneiddwyr Cymru ynglŷn â llefydd ar GYSAGau (fel y nodwyd ynghynt)

Mudiadau ynglŷn ag adnoddau – bydd hyn yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Gwaith.

Y grefydd Baha'i yn estyn cyfarchion Blwyddyn Newydd ar 20 Mawrth 2021.

Rhyng-ffydd Cymru gyda gwahoddiad i rai dathliadau rhithiol – anfonir hwn i'r CYSAGau.

12. Unrhyw fater arall (i'w gytuno arno cyn y cyfarfod gyda'r Cadeirydd)

Dim

13. Dyddiad y cyfarfod nesaf: Haf 2021 i'w Gadarnhau

16 Mehefin 2021 – i'w letya gan Powys

Diolchwyd i Gyngor Bwrdeistref Caerffili am letya'r cyfarfod, i bawb oedd yn bresennol ac i'r holl gyflwynwyr a chyfranwyr.

Daeth y cyfarfod i ben am 13.05.

Attendance

<p>Ynys Môn / Anglesey Rheinallt Thomas (RT) Gwyneth Mai Hughes (GH) Dylan Rees (DR)</p> <p>Blaenau Gwent Paula Webber (PW) Kathy Riddick (KW) Chris Abbas (CA) John Meredith (JM)</p> <p>Pen-y-bont ar Ogwr / Bridgend Edward J. Evans (EE) Angela Hill (AH) Alice Parry (AP)</p> <p>Caerffili/ Caerphilly Paula Webber (PW) Janet Jones (JJ) Cllr John Taylor (JT) Paul Warren (PWn) Cllr Michael Gray (MG) Rebecca Barrett (RB) Janet Jones (JJ) Martyn Western (MW) Carin Quinn (CQ) Teresa Parry (TP)</p> <p>Caerdydd / Cardiff Angela Hill (AH)</p> <p>Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire Kimberley Perry (KP) Cllr Gwyneth Thomas (GT)</p> <p>Ceredigion Cllr Keith Evans (KE)</p>	<p>Conwy Phil Lord (PL) Nicholas Richter (NR)</p> <p>Sir Ddinbych / Denbighshire Phil Lord (PL) Janet Axworthy (JA) Cllr Dave Mackie (DM)</p> <p>Sir y Fflint / Flintshire Vicky Barlow (VB)</p> <p>Gwynedd Dashu (D) Paul Rowlinson (PR) Eurfryn Davies (ED) Selwyn Griffiths (SG)</p> <p>Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil Angela Hill (AH)</p> <p>Sir Fynwy / Monmouthshire Paula Webber (PW) Louise Brown (LB) Sue Cave (SC) Suzanne Gooding (SG)</p> <p>Castell-nedd Port Talbot / Neath and Port Talbot Rachel Samuel (RS) Lee Workman (LW) Debbie Thomas (DT) Tim Hewitt (TH)</p> <p>Casnewydd / Newport Paula Webber (PW) Neeta Baicher (NB) Huw Stephens (HS)</p>	<p>Sir Benfro / Pembrokeshire Cllr Huw George (HG) Amanda Lawrence (AL)</p> <p>Powys Cllr. Ange Williams (AW)</p> <p>Rhondda Cynon Taf Angela Hill (AH) Martyn Silezin (MS) Matthew Maidment (MM)</p> <p>Abertawe / Swansea Alison Lewis (AL) Mohsen El-Beltagi (ME)</p> <p>Torfaen Paula Webber (PW) Marilyn Frazer (MF) Sian Lewis (SL)</p> <p>Bro Morgannwg / Vale of Glamorgan Angela Hill (AH) Marged Williams (MW) Edward Williams (EW) Kalpana Natarajan (KN)</p> <p>Wrecsam / Wrexham Libby Jones (LJ) Tania ap Siôn (TaS) Pippa Virdee-Lace BL)</p>	<p>Observers:</p> <p>REMw Paul Morgan (PM)</p> <p>WJEC Andrew Pearce (AP)</p> <p>ESTYN Gwawr Meirion (GM)</p> <p>Welsh Government Peter Kennedy (PK)</p> <p>REC Dave Francis (DF)</p> <p>Church in Wales Elizabeth Thomas (ET)</p> <p>Catholic Education Service Angela Keller (AK)</p> <p>Qualification Wales Philip Blaker (PB) Catrin Verrall (CV)</p> <p>Minutes Gill Vaisey (GV)</p> <p>Others – unknown to which SACRE associated: Cllr J M Williams Primary Education</p>
---	--	---	---

Minutes of the meeting

1. Introduction and welcome

RS welcomed everyone and explained the protocol for this virtual meeting.

Cllr John Taylor, Chair of Caerphilly SACRE gave a welcome as the host authority for this meeting. He expressed his disappointment that we could not be in Caerphilly physically but none the less, was pleased to act as host and wished the meeting well. He acknowledged the amazing work that schools and teachers have been undertaking in such difficult circumstances.

Cllr Taylor thanked Rebecca Barret as the efficient and effective clerk to Caerphilly SACRE, alongside Paula Webber who provides the professional support. He expressed his support for the planned co-option of two young people who were to soon join the SACRE to give pupil voice to the committee.

A welcome was also given by Paul Warren, Strategic Lead for School Improvement. He explained that he was an ex headteacher and fully appreciated the immense challenges on teachers at present and over recent months. He acknowledged that teachers have been not only managing remote learning during the pandemic but at the same managing curriculum change and the planning that that entails. He also recognised the effects on pupils who have varying degrees of support when learning from home and the impact on the wider community also.

He noted the changes taking place for RE which is to become RVE and mandatory for all pupils 3 – 16 years. With no future right of withdrawal for parents to exercise, he recognises that it is crucial that RVE is objective, critical and pluralistic. This will demand a need for CPD more than ever before.

Paul spoke of the need for SACRE members to have the skills to steer and shape policy at a national level. He expressed thanks to all those involved in doing their best for learners across Wales.

2. Quiet reflection

RS led members through a reflection on the last year, recognising that this day, one year ago, was the first day of the first lockdown due to Covid-19. She acknowledged all those who had lost their lives – how this number had increased in the UK from 364 in March 2020 to the current official figure of 126,172. She reflected on the impact of the pandemic both physically and emotionally on so many people.

RS spoke of ‘the light at the end of the tunnel’ with the roll out of the vaccines. She commended all the health workers and key workers for all that they had done and continue to do in their crucial work.

RS invited members to mark a minute’s silence at midday, inline with the Marie Curie initiative to make this a day of remembrance. At 8p.m. people are encouraged to hold a light on their doorsteps, whilst buildings around the country will be lit by a yellow light.

3. Apologies

Apologies were received from Lucy Grant and John Mitson as Executive Members, Jennifer Harding - Swansea SACRE, Rita Fiona Thomas – Neath Port Talbot SACRE, Tudor Thomas - Monmouthshire SACRE.

4. Minutes of meeting held on 7th October 2020

The minutes were agreed as an accurate record of the meeting subject to the addition in the attendance list of Cllr Keith Evans who indicated that he had been present, and on page 18, second sentence needing inverted commas added to “regard”.

RT expressed thanks for the detail included in the minutes and the speed in which they had been made available following the meeting.

5. Matters arising from minutes of the last WASACRE meeting

Item 7 – Blended Learning – RS reported that NAPfRE has been considering how to take this forward. An update will be given later in the meeting.

Item 10 – concerns had been raised from Wales Humanists about membership of SACREs. In response to this, the Chair wrote to all LAs reminding them of the letter from WG stating that representatives from non-religious beliefs such as humanism, can be given a place on Committee A.

6. Qualifications Wales Consultation (Alice Parry)

<https://qualificationswales.org/english/qualified-for-the-future---have-your-say/>

AP gave an overview of the current consultation on the new GCSE qualifications.

She reported that the WASACRE Exec has begun to consider a response to the consultation. The teaching members of the Exec had firstly considered this followed by a meeting with REC representatives to share views.

AP noted that the consultation includes three main proposals for the Humanities Area of Learning and Experience:

4. Review and reform GCSEs in Business, Geography, History and Religious Studies.

AP noted that there would be a need to ensure comparability between all the GCSEs. The same time allocation should be given to all the subject GCSEs. WASACRE would want the RS GCSE to be published at the same time as other subjects. Both statutory RVE and optional Religious Studies needs to be considered. The specification needs to address inclusivity – it should retain rigour and challenge but also has to be accessible to all learners. Rather than the Full or Short course being 100% examination, ongoing assessment with a digital and blended learning approach would be preferred. The GCSE also needs to provide sufficient challenge to allow students to be prepared to go on to further study such as the A Level.

5. If feasible, create a new GCSE in Social Studies.

AP recognises that this could be a popular course. However, it will need to be appropriately clear and distinguishable from other disciplines. Whilst it is acknowledged that there will be potential links between disciplines, these links need to be complimentary and not competitive. Each discipline needs to be distinct. RS should not be allowed to be disguised within Social Studies.

QW needs to consult with the Stakeholders and ensure that specialists are deployed to create the new qualifications.

6. If feasible, create a new integrated GCSE in Humanities.

AP suggested that for this approach, it would need to be ensured that links are complimentary and there remains a distinctiveness of the various subjects that make up the Humanities. This is an opportunity to embed the What Matters Statements within a GCSE. A multi-dimensional approach through a range of lenses would be beneficial as long as the differences between the subject disciplines are still evident.

It was noted that some schools may not teach in a thematic way so would not want a Humanities examination. The statutory RVE could be covered in an integrated Humanities qualification.

Further responses from the Exec and wider WASACRE membership will be considered in formulating the final WASACRE response to the consultation which will be submitted to QW by 9th April 2021, before the deadline of 16th April. A summary of the response will be shared with all SACRE when it is available.

Questions were raised and responses given by various members.

LB stated that her SACRE had looked at the consultation. PW, as the SACRE adviser, had provided a draft response for consideration. Teachers, in particular, were concerned about a Humanities GCSE and that if pupils were not given the opportunity to specialise in specific subjects, this would deter them from pursuing an A Level or further qualification in the subject e.g. Religious Studies. LB suggested that teachers wanted to keep separate subject examinations.

PL questioned whether the What Matters Statements would be reflected in the new GCSE. PW confirmed that that would be the case.

PL also suggested that the increased examination provision within Humanities would cover a considerable amount of content and there is need to be careful of repetition across the exams.

PW confirmed that a lot more planning still needs to take place for the new qualifications. She explained that the reason why QW is going down this route is to accommodate the subsidiarity that schools will have. It will be necessary to provide a range of examination options to suit the different choices / approaches to curriculum design and provision that will be adopted by schools.

DF stated that he appreciated the recent meeting with WASACRE that he and Deborah Weston had been invited to attend on behalf of the REC to discuss the new qualifications. He advised that subsequently the REC is writing to all member organisations to make them

aware of the consultation and encouraging them to respond in their own way should they wish to do so.

